Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Gair yn ei Bryd

Taflen ar gyfer eglwysi bregus neu wan

Rhagfyr 2007

Wynebu'r Sefyllfa

Er nad yw neb ohonom yn cael pleser o sôn am gau capel neu ddirwyn achos Cristnogol i ben, mae gwneud hynny'n orchwyl y mae nifer helaeth o unigolion a chynulleidfaoedd ledled y wlad yn rhagweld y byddant yn gorfod ei gyflawni yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Bwriad y daflen hon yw cynnig cyngor ymlaen llaw i unrhyw rai allasai wynebu'r sefyllfa honno, a datgan fod cyngor a chefnogaeth ar gael, ac nad oes angen bod yn swil gofyn amdano.

Dirwyn Achos i ben

Pan fo achos Cristnogol yn cael ei ddirwyn i ben, mae angen gwneud y gwaith yn drefnus ac urddasol.

Dyma'r camau sy'n perthyn i'r proses.

Aelodau'r Eglwys yn teimlo na allant ddal ati
i gynnal yr achos
⇩
Cynnal Cwrdd Eglwys i benderfynu
dod â'r achos i ben
⇩
Diogelu asedau'r Eglwys, yr arian a'r eiddo
⇩
Cysylltu ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
⇩
Archwilio'r sefyllfa gyfreithiol
⇩
Penderfynu mewn Cwrdd Eglwys beth i'w wneud
â'r arian a'r eiddo
⇩
Datgorffori'r achos gyda'r urddas sy'n weddus
i bobl Dduw

Nid oes rheidrwydd ar unrhyw Eglwys i gynnwys yr Undeb yn ei threfniadau, ond awgrymwn yn gryf eu bod yn gwneud hynny gan fod gan yr Undeb brofiad helaeth mewn goresgyn problemau ac anawsterau cyfreithiol ac ymarferol mewn sefyllfaoedd o'r fath.

Ymdopi
Nid oes angen i neb deimlo'n euog o orfod dwyn achos i ben. Nid oes dim i ddweud fod unrhyw eglwys unigol i barhau dros byth, a phan fo eglwys wedi goroesi cyfnod ei defnyddioldeb, yna ei dirwyn i ben sy'n weddus. Mae mwy anrhydedd mewn gwneud hynny'n daclus nac mewn ymestyn ei hoes yn ddiangen.

Paratoi ymlaen llaw
Yn aml iawn, un o'r anawsterau mwyaf mewn datgorffori Eglwys yw bod aelodau wedi gadael i'r sefyllfa ddirywio'n rhy bell cyn gwneud dim. Oherwydd hynny, mae Undeb yr Annibynwyr yn argymell Eglwysi i ddod i benderfyniad ymlaen llaw ynglŷn â'u dyfodol.

Awgrymir fod Eglwysi yn pasio penderfyniad sy'n datgan y byddant yn dirwyn yr achos i ben pan fyddo rhif eu haelodaeth yn disgyn i nifer benodol o bobl. Awgrymir deg neu ddeuddeg o aelodau.

Bydd hyn yn sicrhau fod aelodau ar ôl i ofalu am y datgorffori ac i ofalu fod asedau'r Eglwys yn cael eu dosbarthu'n briodol.

Ymddiriedolwyr
Mae'n bwysig fod eglwysi yn sicrhau fod ganddynt nifer digonol o ymddiriedolwyr. Yn gyfreithiol, hwy fydd yn gyfrifol am ddwyn yr achos i ben. Nodir y nifer angenrheidiol o ymddiriedolwyr yng Ngweithred yr Eglwys. Dylid cysylltu â chyfreithiwr/wraig er mwyn cadarnhau apwyntio ymddiriedolwyr newydd. Bydd bod heb ymddiriedolwyr yn arwain at bob math o anawsterau.

Y Gweithredoedd
Awgrymir hefyd fod pob Eglwys yn gwneud yn siŵr ei bod yn gwybod ym mhle mae ei Gweithred Gyfreithiol yn cael ei chadw, ac yn gwneud yr wybodaeth yn hysbys i'r aelodau, neu ei hargraffu yn ei hadroddiad blynyddol. Pan ddaw yn amser i ddatgorffori'r achos, bydd angen y Weithred gan mai yn honno y mae sylfaenwyr yr Eglwys wedi datgan eu dymuniadau ar gyfer y dydd y byddai'r achos yn dod i ben.

Os nad oes Gweithred, neu os yw'r Weithred wedi mynd ar goll, awgrymir fod yr Eglwys yn cysylltu ar unwaith â'r Undeb er mwyn trefnu fod un newydd yn cael ei mabwysiadu.

Gall yr Undeb gynorthwyo gan fod Gweithredoedd parod ar gael, a gall Eglwysi eu mabwysiadu heb orfod wynebu costau mawr.

Eiddo'r Eglwys
Mae rhai swyddogion ac aelodau eglwysig dan gamargraff y gallant wneud fel ag y mynnont ag arian ac eiddo'r Eglwys oherwydd ei bod yn Eglwys Annibynnol, a'i bod yn dod i ben. Nid yw hyn yn wir.

Mae'r gyfraith yn fanwl iawn ynglŷn â'r hyn y gellir ei wneud gydag asedau elusennau fel eglwysi, a dyna pam yr awgrymir fod pob eglwys yn gofyn am gymorth Undeb yr Annibynwyr wrth ddatgorffori. Ni ddylid gwneud dim â'r adeiladau, nac unrhyw fuddsoddion, na chwaith unrhyw arian parod neu gyfrifon banc hyd fod sicrwydd fod y bwriadau yn unol â gofynion y gyfraith.

Ymhellach, ni ddylid gwneud dim ag unrhyw eiddo na dodrefn, a hynny am yr un rheswm. Cofier bod mewn llawer o gapeli gelfi hynafol a gwerthfawr. Ni ddylid gwerthu na rhannu'r rhain hyd fod yr Eglwys wedi derbyn cyngor cyfreithiol (drwy'r Undeb, os yw'n dymuno) ac wedi dod i benderfyniad mewn Cwrdd Eglwys.

Pwysleisir bod hyn yn fater o bwys gan y gall y gyfraith fynnu bod unigolion yn ad-dalu unrhyw 'golledion' fydd wedi digwydd o ganlyniad i unrhyw weithredu anghyfreithlon. Cofier nad yw anwybodaeth o'r gyfraith yn amddiffyniad dilys pan fo trosedd wedi ei chyflawni.

Cysylltu
Os am unrhyw wybodaeth bellach, neu os am gymorth gyda dirwyn achos i ben, neu gyngor ynglŷn â mater cyfreithiol, gellir cysylltu naill ai â'r Ysgrifennydd Cyffredinol neu'r Ysgrifennydd Gweinyddol trwy,

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg,
Tŷ John Penri,
5 Axis Court,
Parc Busnes Glanyrafon,
Bro Abertawe,
ABERTAWE SA7 0AJ

Teleffon: 01792-795888
E-bost: undeb@annibynwyr.org